OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3278

# Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Sail Absoliwt ar gyfer Meddiannu am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) (Y Weithdrefn Adolygu) (Cymru) 2014

**Adolygiad heb wrandawiad**

**5.**—(1) Pan fo rheoliad 3(2) yn gymwys, rhaid i'r landlord anfon hysbysiad ysgrifenedig at y ceisydd gan nodi y caiff y ceisydd wneud sylwadau ysgrifenedig i gefnogi'r cais cyn amser a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i'r amser a bennir yn unol â pharagraff (1) beidio â bod yn gynharach na deng niwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r ceisydd yn cael yr hysbysiad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

(3) Wrth wneud penderfyniad ar yr adolygiad, rhaid i'r person sy'n cynnal yr adolygiad gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a geir yn unol â pharagraff (1).

(4) Rhaid i'r adolygiad gael ei gynnal gan berson a benodir at y diben hwnnw gan y landlord, a gaiff fod yn swyddog neu'n gyflogai i'r landlord.

(5) Rhaid i berson a benodir o dan baragraff (4) sy'n swyddog neu'n gyflogai i'r landlord fod yn berson â safle uwch na'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

(6) Rhaid i berson y cyfeirir ato ym mharagraff (4) beidio â bod yn berson a oedd yn rhan o wneud y penderfyniad gwreiddiol.